Gair bach Bethlehem 52

www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth – rhif 52 (Haf 2025)
Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Y Sul ar ôl y Pasg oedd hi - Eilir, yr unawdwyr, y cerddorion, y llefarydd a'r côr ar y galeri – ar ddiwedd y cyflwyniad, Rhagor ar dudalen 7.

Amser dewis elusen

Mae Bethlehem, Gwaelod-y-garth, trwy garedigrwydd ei haelodau a'i chyfeillion, wedi bod yn hael eu cefnogaeth a'u cyfraniad i nifer helaeth o wahanol elusennau dros y blynyddoedd. Ers troad y ganrif cefnogwyd elusennau megis:

Ambiwlans Awyr Cymru
Ty Hafan
Ysbyty Felindre
Canolfan y Drindod
Banc Bwyd Caerdydd
Cartref Craig y Parc
Ystafell Fyw
Bangla Cymru
Clefyd Motor Neurone
Trafol

Yr elusen ddiweddaraf i dderbyn ein cymorth ydy Cymdeithas Alzheimer Cymru, a bydd cyfle yn fuan i drosglwyddo'r arian terfynol iddyn nhw. Yn ogystal, 'rydym wedi bod yn cyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol mewn amryw o wahanol wledydd, ac wedi ymateb i alwadau brys am gymorth oddi wrth DEC (Disasters Emergency Committee).

Daeth yn gyfnod dewis elusen leol arall i'w chefnogi am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy, gan fanteisio ar awgrymiadau o du'r aelodau am y gwahanol elusennau y gellid eu hystyried. Bu'r Diaconiaid yn trafod yr awgrymiadau a ddaeth i law, gan hepgor y rhai a gafodd gefnogaeth yn y gorffennol, ac fe benderfynwyd mai dewis o ddwy elusen fyddai gerbron, sef **Sight Life Wales**, ac **Oasis Caerdydd.**

(parhad ar y dudalen nesaf)

Amser dewis elusen (Parhad)

Fe fyddech yn gyfarwydd a **Sight Life Wales** - "Cymorth Colled Golwg Lleol" - dan ei enw blaenorol, sef Sefydliad y Deillion, Caerdydd – elusen sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau i'r deillion a'r rhai sydd â nam ar eu golwg.

"*Mae cefnogaeth ymarferol yn cynnwys addasu cartrefi pobl trwy ddarparu amgylchedd mwy diogel, darparu cymhorthion technolegol i helpu gyda darllen, a chyfarfodydd rheolaidd lle gall dioddefwyr gyfarfod a chael cyngor a chefnogaeth. Mae Sightlife yn darparu ei holl wasanaethau yn rhad ac am ddim ac yn dibynnu'n llwyr ar noddwyr, rhoddion a digwyddiadau codi arian i dalu ei gostau.*"

Mae aelodau yn ein plith sydd eisoes wedi elwa o ddarpariaeth yr elusen hon.

Mae **Oasis Caerdydd** yn elusen sy'n cynnig cymorth a chroeso i geiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gynnig dosbarthiadau, gweithdai a chymorth ymarferol i ymdopi â chyrraedd gwlad a bywyd gwahanol i'r hyn sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Gwyddom, o wrando ar y newyddion yn feunyddiol, fod y niferoedd sy'n deisyf cymorth wedi cyrraedd gwledydd Prydain, yn cynyddu yn gyson, a bod nifer o gyrff tebyg hefyd yn barod eu hymgeledd iddyn nhw.

OND, **chwi sydd i benderfynu**, a bydd cyfle i chwi ddewis yn yr oedfa bore Sul y 6ed o Orffennaf – bydd papur pleidleisio ar eich cyfer bryd hynny!

Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd

Suliau Bethlehem hyd fis Medi

(am 10.30 y bore ym Methlehem – ac am 11.00 yn y Tabernacl)

Cofiwch fod y drefn o gyfnewid Suliau dros yr Haf a chyd-addoli gyda'r Tabernacl, Efail Isaf, ar fin cychwyn.

Fel y gwelwch isod, bydd y drefn yn cychwyn o ganol Gorffennaf.

Mis Gorffennaf:

6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 – Oedfa dan ofal Eirian Dafydd
20 – Cyd-addoli yn y **Tabernacl, Efail Isaf** (am 11:00 a,m.)
27 - Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) **ym Methlehem** (dan ofal Rhodri-Gwynn Jones)

Mis Awst:

3 – Cyd-addoli yn y **Tabernacl, Efail Isaf** (am 11:00 a,m.)
10 – Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) **ym Methlehem**
17 – Cyd-addoli yn y **Tabernacl, Efail Isaf** (am 11:00 a,m.)
24 - Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) **ym Methlehem**
31 - Cyd-addoli yn y **Tabernacl, Efail Isaf** (am 11:00 a,m.)

HEFYD YN Y RHIFYN HWN

∗ Neges Delwyn ∗ Eisteddfod yr Urdd ∗ Oedfaon a fu ∗ Celf Anthony ∗ Cerdd Martin
∗ Rhys Powys heb ei bants ∗ Cofio Côr Prifwyl 2000 ∗ O'r Cwrdd Diaconiaid ∗ a mwy!
∗ A'r tro nesaf – eich cyfraniad chi!

Gair gan Delwyn

Gorffennaf



"Daw hyfryd fis ac aeth hyfryd fis" Mehefin o dan ein trwynau, a bellach ma' Gorffennaf; os nad wedi cyrraedd yn barod, ar y gweill. Gorffennaf - gorffen haf yw'r ystyr am wn i, cywirwch fi os dwi'n anghywir, diwedd yr haf yn yr hen ddyddie pan gafodd y mis ei enwi, a falle'r tymhore rywfaint yn wahanol i shwt ma' nhw nawr.

Gorffennaf- y seithfed mis. 31 diwrnod. Haf yn Hemisffer y Gogledd, gaeaf yn Hemisffer y De. Gorffennaf yn y Gymraeg. Iuglio yn Eidaleg. Juillet yn Ffrangeg. July yn Saesneg, a hynny am fod y mis wedi'w enwi ar ôl llefarydd y geirie enwog "Veni. Vidi. Vici." Fe ddês i, fe welais i, ac …agorais Pizzeria !!! Na, ac fe goncrais i ! Ie, geiriau cŵl lŵl Cesar, sef Julius Caesar, y Cadfridog Rufeinig.

Nawr, ma' rhai pobol yn cael eu henwi ar ôl y mis, ond nid Julius, o na ! Roedd e'n dipyn o fachan, felly fe gafodd y mis ei enwi ar ei ôl e ! Pam? Wel, roedd yn arweinydd milwrol arbennig, ac fe goncrodd diroedd Gâl, sef y rhan fwyaf o orllewin Ewrop heddiw ,ac fe ddaeth yn eithriadol o gyfoethog wrth wneud. Aeth yn wleidydd. Aeth yn wleidydd cyfoethog, pwerus. OND, fel gyda sawl gwleidydd cyfoethog, pwerus, fe aeth y pŵer i'w ben.

Fe oedd yn rheoli'r Senedd Rufeinig, ac er mwyn cael ei ffordd ei hun mi fyddai'n defnyddio ei "veto" yn aml. Rhy aml. O fewn dim fe gollodd ei "gyfeillion" agosaf, ac fe lwyddodd i achosi Rhyfel Cartref, rhyfel arweiniodd yn y diwedd at gwymp Democratiaeth yn Rhufain. A chi'n gwybod be' ddigwyddodd. Do, ar yr "Ides of March" fe drodd ei gyd wleidyddion arno … a'i ladd!!!

Ie, arweinydd pwerus cyfoethog a drodd ei gefn ar ddemocratiaeth ei wlad a deddfau'i Senedd, ac a syrthiodd o'r uchelfannau wedi iddo wneud.

Oes, mae 'na wersi i'w dysgu o hanes…ac fel byddai'r "hanesydd" huawdl Ifas y Tryc yn dweud, "dwi'n deud dim, deud ydw i …"

A gyda hynny, gorffennaf!!!

Delwyn

Ydyn ni wedi colli'r cyfle i gynnwys rhyw newydd mawr neu fach o'r rhifyn hwn? Ymddiheuriadau os bu hynny. Cywirwch y cam erbyn y rhifyn nesaf, drwy anfon neges at Ifan – tycnau@aol.com

Rhagor o Newyddion Bethlehem

Anfon ein Cofion

Rydyn ni'n anfon ein dymuniadau gorau i bawb sydd wedi eu rhwystro rhag mynychu oherwydd gwaeledd neu reswm arall. Yn eu plith mae:

- Mair John, Llysfaen, sydd heb fod yn ei llawn iechyd ar hyn o bryd
- Ken Evans, Pentyrch, sydd yn cael gofal yn Nantgarw
- Delyth Pollard, sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond braf ei gweld yn ôl bellach ym Methlehem

Penblwyddi Nodedig

Fyddech chi ddim wedi sylwi, ond mae dwy o'n haelodau o Radur newydd ddathlu cyrraedd degawd dros oed yr addewid – a hynny o fewn deuddydd i'w gilydd. Y ddwy dan sylw ydy **Marian Ifans** a **Gwennan Richards**. Hyd y gwyddom, ni welwyd "bynting" pentrefol nac unrhyw negeseuon breision ar yr ynysoedd traffig lleol i nodi'r cerrig milltir. Pen-blwydd hapus i'r ddwy!

Diweddaru'r offer fideo a sain

Mae nifer o gronfeydd grantiau y mae Bethlehem yn gobeithio fydd yn cymeradwyo ein ceisiadau ac yn ein cynorthwyo. Un o'r camau nesaf o ran diweddaru offer fydd uwchraddio'r offer sain a chael camera sefydlog i groniclo'r oedfaon.

Y llyfrau yn y festri

Ydych chi wedi cael golwg yn ddiweddar ar y rhoddion o lyfrau sydd ar y silff yn y festri? Mae yno gyfrolau diweddar a chreiriau o'r gorffennol, nofelau, cofiannau ayb. Loetrwch uwch y silffoedd, dewiswch a chyfrannwch at ein helusennau os ydych am ei gadw, Os mai dim ond ei fenthyg ydych chi – wel, croeso i hynny hefyd!

Trigain Mlynedd Gwilym a Threcelyn

Roedd aduniad blynyddol Clwb Rygbi Trecelyn ym mis Ebrill yn gyfle i lansio llyfr i nodi 60 mlynedd ers iddyn nhw ennill y bencampwriaeth yn 1964-65. Roedd nifer o 'Dîm 65' wedi mynychu'r achlysur yn cynnwys un o selogion Bethlehem, sef Gwilym Williams, Pentyrch, i ddathlu'r tymor gorau erioed welwyd yn Nhrecelyn. Dyma nhw gyda'i gilydd a Gwilym ar y chwith o'r llun yn y rhes gefn:

Ffêc Niws am y Rhyngrwyd!

Sach-liain a lludw. Adroddwyd yn ein rhifyn diwethaf ein bod ar fin cael cyswllt rhyngwyd o'r newydd. Fodd bynnag, er mynych addewidion, ni chyrhaeddodd y peirianwyr i ddringo'r polyn tu fas i Fethlehem a'n cysylltu gyda'r we fyd eang - yr adeg honno.

OND! Y newydd da ydy fod y cyswllt â'r capel ei hunan bellach yn gyflawn – yn y capel ei hunan ar y funud. Cyn hir bydd hefyd yn weithredol yn y festri. Bydd hynny'n agor drysau newydd iawn i adnoddau mae'r Annibynwyr yn ei greu ac yn golygu y gellir cysylltu ein hoffer cyfrifiadurol ni ym Methlehem â'r byd mawr tu allan.

Cyn hir, bydd hyd yn oed modd rheoli'r gwres canolog o hirbell.

A llongyfarchiadau i Ifan Glyn, Gwaelod-y-garth, (ar y dde) am gwblhau'r ras i Gopa'r Garth – a hynny mewn amser hynod o barchus. Mae hi'n 6 milltir nôl a blaen a gwnaed hynny eleni ar un o'r dyddiau poethaf.

"A'r enillydd yw..."

Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025

Buddugwyr Bethlehem

Llongyfarchiadau i'n plant a'n pobl ifanc fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam eleni. Dyma nhw:

Cystadleuaeth	Safle	Enw	Ysgol/Adran
Grŵp Clocsio	1af	Gwenni Owen-Griffiths	Adran Bro Taf
Parti Cerdd Dant	1af		
Parti Deulais	1af		
Côr Adran	3ydd		
Ensemble Offerynnol	1af	Alys Huws	Ysgol y Wern
Band/Cerddorfa	1af	Alys Huws Alaw Harding	Ysgol y Wern
Côr Cerdd Dant	1af	Megan Thomas Awen Thomas	Ysgol Glantaf
Côr SSA i aelwydydd	1af	Megan Thomas Awen Thomas	Côr Plastaf
Côr	1af	Gwenni Owen-Griffiths Elsi Tame	Ysgol Plasmawr
Parti merched	1af	Elsi Tame	Ysgol Plasmawr
Côr	3ydd	Nel Tame	Ysgol Plasmawr
Band	2il	Aaron Owen-Griffiths a 'Penbleth'	Ysgol Plasmawr
Cerddorfa		Sara Thomas	Ysgol Glantaf
Parti Dawns		Alaw Harding	Adran Bro Taf

Aaron

Alys

Alaw

Gwenni

Megan & Awen

Heb anghofio Eilir Owen-Griffiths a gafodd sawl llwyddiant gyda Chôr Ifor Bach.

A thra bo ni wrthi'n llongyfarch, braf nodi i gôr arall Eilir, côr sy'n gefnogol iawn i ni yma ym Methlehem, sef CF1, wneud marc yn rhyngwladol yn nechrau Mai. Fe deithiodd y côr draw i Hull i gystadlu mewn gŵyl Gorawl Ryngwladol ac ennill y marciau uchaf a dyfarniad aur, fydd yn cyfri yn eu safle'n rhyngwladol o ran rhagoriaeth, yn unol â rheolau'r ŵyl sy'n cael ei chynnal mewn sawl gwlad ar hyd a lled y byd.

Dewch! Dewch! Dewch!

Coffi a chlonc

Trydydd bore Iau o bob mis

Mae'r niferoedd sy'n galw yn gallu amrywio o fis i fis ar y trydydd bore Iau yn y festri. Ym Mai, (llun ar y dde), criw bach ddaeth ynghyd a throdd y sgwrs, dan arweiniad Eirlys Davies, Radur, at wedd newydd ar hanes y Samariad Trugarog.

Ond nid felly mae pethau bob mis.

Ym mis Mehefin, (isod) roedd dwywaith y niferoedd, felly da fod yma fyrddau newydd symudol hwylus i ehangu'r gofod cloncan yn ôl y galw! Ymestyn am y bara brith a'r pice mân fu'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd, ar wahân i'r cloncan! Does dim dal ar beth all godi mewn sgwrs felys rhwng cyd-aelodau. Mae croeso i bawb. Da chi, dewch, os ydych chi'n rhydd!

Diolch i'r rhai fu'n darparu danteithion a'r rhai fu'n gweini. Mae'r cyfraniadau ariannol bob tro yn mynd tuag at ein helusen.

A thra bo ni'n sôn am ein helusennau – dyma gefn cerbyd Delwyn, ein harweinydd, oedd yn cludo ein cyfraniad diweddaraf i'r banc bwyd. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ar hyd y misoedd a'r blynyddoedd.

Mae'r banc bwyd yn wir ddiolchgar am bob eitem ac y mae Bethlehem yn ceisio ymateb i'r gofynion ddaw o fis i fis am wahanol gynhwysion.

Y Perfformiad o "GORFFENNWYD"

Gwaith cerddorol Eilir Owen Griffiths - Nos Sul Ebrill 27

Do, aeth deufis heibio – a "Gorffennwyd" oedd teitl y gwaith - ond yma y bu'r "Cychwyn". Isod, wele un o'r ymarferion niferus a heriol i'r côr dan arweiniad y cyfansoddwr ei hunan:



Jona Milone

Gwern Morus Williams

Melissa Griffiths

Hannah John

Efan Williams

Max Mohammad

<u>Uchod</u> – yr unawdwyr – bydd rhain yn enwau i'w cofio.

<u>Chwith</u> – un hanner o'r côr yn y galeri. (Thynnodd neb lun y bois!)

<u>Isod</u> – Eilir, Medi y llefarydd & Caradog Williams, y cyfeilydd ynghyd a rhan o'r gynulleidfa.

Dyma'r Linc i'r recordiad:
https://youtu.be/u56ZV3xxdQs

Byw yn y foment

“Ichi-go, ichi-e”

Rhys Powys

“Take off your shirt!”
Gwraig oedrannus Siapaneaidd oedd yn gorchymyn ac roedd rhywbeth yn sain ei llais oedd yn awgrymu mai cydsynio fyddai orau. Tynnais fy nghrys. Roeddwn i mewn stafell newid fechan, mewn tŷ Siapaneaidd traddodiadol, yn nyfnderoedd dinas Kyoto. Dychmygwch “dŷ Sain Ffagan” ynghanol rhes o dai cyffredin.
“Now take off your pants!”
Roedd Siân yn y stafell drws nesaf yn cael ei gwisgo mewn kimono traddodiadol hardd, â blodau yn ei gwallt, tra’r oeddwn i’n cael fy urddo mewn kimono plaen i ddynion. Roedd yr hen wraig yn amlwg wedi hen arfer â’r dasg ac, mewn dim o dro, roedd hi’n lapio’r gwregys “obi” yn dynn am fy nghanol.
“You are very slender!” medde hi - a dyna ni’n dau yn ffrindiau pennaf!
Canolfan WAK Japan oedd y tŷ bychan ac roedd Siân a finne wedi ein gwahodd i ymuno mewn ‘Seremoni De’ tra’n cael ein haddysgu am y ddefod sydd â’i gwreiddiau nôl yn yr Unfed Ganrif ar Bymtheg. Mae pob symudiad, pob ystum, pob gwahoddiad a phob ymateb wedi’u saernïo i greu awyrgylch heddychlon. Bydd gwragedd a dynion yn Siapan yn cysegru blynyddoedd i berffeithio eu perfformiad o’r ‘Seremoni De’ gan droi’r digwyddiad cyfan yn un weithred syml o fyfyrio tra’n symud.

Mae’r stôf fechan, y powlen de a’r cwpanau yfed hefyd yn cael eu trin gyda’r parch a’r anwylder mwyaf rhyfeddol. Ymestyn gyda’r llaw dde, troi’r gwpan hanner tro i’r dde eto fel bod yr addurn yn cael ei arddangos i’r lleill yn y ‘stafell, yfed y te gwyrdd mewn tri chegaid - a gwneud sŵn traflyncu gyda’r llwnc olaf i ddangos ein gwerthfawrogiad o’r ddiod chwerw. Roedd llawer o fanylion i’w cofio a ninnau’n gwneud ein gorau i barchu’r gwestai ac i beidio â phechu.
Cyn gadael fe gawson ni sgwrs fer am hanes y seremoni, ei gwreiddiau’n ddwfn yn y gred Bwdïaidd, a’r cysyniad o ***“Ichi-go ichi-e”***. Ystyr yr ymadrodd bach syml hwn yw “Un tro, un cyfarfod” ac maen ein hatgoffa i werthfawrogi pob profiad a phob cyfarfyddiad gan mai un waith yn unig bydd yr amgylchiad arbennig hwn yn digwydd. Byw yn y foment, felly, a gwerthfawrogi pob profiad fel un hollol unigryw na ddaw i’n rhan ni eto.
Gyda fy mhen yn troi, a fy nhrowsus nôl am fy nghanol, dyma gamu allan o dŷ WAK Japan ac yn ôl i ferw maestrefi Kyoto…
Yn syth ar ôl dychwelyd o Japan bu’n rhaid i ni fynd ati i glirio “Y Wenallt”. Pob dilledyn a phob darlun; pob llythyr, llwy a llyfryn; pob cadair, cwpwrdd, cyfrifiadur; pob sosban, seidbord a soffa. Fe weithion ni’n galed, fel teulu, i ffeindio cartref newydd, teilwng i lond tŷ o atgofion.
Ymhlith y trugareddau roedd set hardd o lestri te ac fe ddangoswyd hwnnw i’r dyn ddaeth acw i werthuso hen ddodrefn ag ati. Roedd Mam wedi gofalu am bob un llestr a’u rhoi i gadw mewn gorchudd gwyn. *“I’ll give you a pound for the lot”* medde fe am y llestri. *“No one wants the old stuff any more.”*
Cefais fy atgoffa’n syth am y parch, y gwerthfawrogiad a’r cariad oedd yn cael ei ddangos i’r hen lestri te yn Kyoto.
Fe gadwn ni’r llestri ac fe ddefnyddiwn ni nhw i gynnal ein te parti ein hunain rhyw ddydd. Ac fe fydda i’n siŵr o werthfawrogi pob cegiad o’r cwpanau ‘tsieina’ bregus. Wedi’r cyfan, *“ichi-go ichi-e.”*

CWRDD MERCHED MEHEFIN

Y Trysor yn yr Oriel

Hen Lwybrau Anthony

Mae lliw blwch y pennawd wedi ei ddewis yn fwriadol y tro hwn! Dyma adlewyrchiad o un o hoff liwiau'r artist oedd yn ein gwahodd i'w weithdy ac oriel ar 44a Stryd Morgannwg, Treganna, y mis hwn. Ie, neb llai na mwy na'n cyd-aelod ym Methlehem, yr arlunydd Anthony Evans.

Mae arddangosfa o'i waith newydd fod ar agor yn "Oriel Canfas" â'i chynnwys yn wahanol i'r cynllun gwreiddiol, gan i Anthony orfod newid pethau pan ddaeth "blip" annisgwyl ar ei brofion iechyd yn gynharach eleni. Roedd hyn yn golygu mai ei waith ei hunan yn unig oedd dan sylw bellach, rhywbeth oedd yn ein siwtio ni, fel ymwelwyr o Fethlehem, i'r dim.

Ond y bonws, (ac y mae bob amser fonws yn sgil cyfraniadau Anthony) oedd i ni gael sgwrs am ei yrfa, y dylanwadau arno a chefndir rhai o'r lluniau oedd ar y parwydydd. Rhaid i chi weld y lluniau drosoch eich hunain i wir werthfawrogi mai "Hen Lwybrau" yw ei thema – a'r amrywiol lwybrau hynny'n adlewyrchiad o'i fagwraeth, o'r dylanwadau arno, o'i grwydradau a'i hoff fannau a beirdd.

Mae'r Oriel wedi bod ar agor o ddiwedd Mai hyd ddiwedd Mehefin – i bawb allu galw i weld y peintiadau, printiadau a lluniadau. Ond hwyrach gall y rhai na allodd fynychu gyda'r Te Merched holi'r arlunydd rhyw fore Sul os oes yno gyfle i alw mewn yn breifat!

Diolch i Ann Passmore am drefnu'r ymweliad – ac i aelod cwbl allweddol arall o'n plith, Glenys, distain y dishgledi a'r pice bach. Glenys lwyddodd i gael cadair i bawb a hynny heb orfod benthyca oddi ar y cymdogion drws nesaf!.

Ein Blwyddyn Ariannol

Daeth ein blwyddyn ariannol i ben ar Ebrill 5. Rydych bellach yn cyfrannu ar gyfer 2025-26. Os hoffech chi wybod faint ydych chi, fel aelod neu deulu, wedi gyfrannu ar unrhyw adeg at achos Bethlehem, yna mae'r ateb yn syml. Holwch ein trysorydd, Peredur (Pwt) Evans drwy anfon e-bost ato ar:
trysoryddbethlehem@gmail.com

Rhai o Oedfaon Bethlehem

Cip yn ôl dros rai o'r Suliau

... ond nid y cyfan! Ymddiheuriadau am golli rhai – gwnewch chi iawn am hynny y tro nesaf!

Oedfa gyntaf mis Ebrill oedd hi – pan dderbyniwyd dau aelod newydd i'n plith. Croeso mawr i Ann a John Mcmillan. Er ei bod yn bleser cynnwys pawb arall yn y llun o selogion y seddau cyfagos, ymddiheuriadau nad oes ond llaw ein harweinydd, Delwyn, yn y pictiwr yn cyfarch John. Bu'r ffotograffydd braidd yn araf, a does dim traddodiad o ofyn am "Têc Tŵ" yn hanes Bethlehem! Felly, rhaid gwneud iawn am hynny drwy gynnwys llun gwaelod y ddalen o Delwyn gyda'r ddwy fu'n ledio'r emyn nesaf! Ond yn gyntaf – gadewch i ni glywed rhagor am Ann a John.

Dyma'r geirda ddaeth o Gastell Nedd i gyflwyno'r ddau aelod newydd:

"Daeth y ddau atom yn aelodau yn Soar-Maesyrhaf, Castell-nedd, adeg gweinidogaeth y Parchg Aled Gwyn yn yr 80au cynnar - Ann yn enedigol o Flaenau Ffestiniog a John o Borthmadog

Penodwyd Ann yn Feddyg Teulu ym Meddygfa Dyfed Road a symudodd y ddau i'r Cimla i fyw. Buan y ganwyd y ddau blentyn, Gwilym a Carys. Ers hynny bu'r teulu yn aelodau ffyddlon a gweithgar.

Penodwyd John yn ddiacon a buan y bwriodd ati i gyflawni tasgau cynnal a chadw ynghyd a chyfrifoldebau arferol swyddog, gan alw ar aelodau a'u cefnogi.

Pan geisiwyd am nawdd i adnewyddu'r adeilad Ann fu'n gyfrifol, gyda chymorth John. Roedd ganddi ffordd drefnus a manwl i gadw'r holl ddogfennau a gohebiaeth a sicrhawyd llwyddiant i'r gwaith costus. Bu'r ddau yn gefnogol i holl weithgareddau'r Eglwys ac i'n gweinidog, y Parchg Gareth Morgan Jones, ac mae ganddo ef barch mawr i'r ddau ohonynt. Bu Ann yn Feddyg Teulu uchel ei pharch yn ein mysg, yng Nghastell-nedd.

Colled i ni yn Soar-Maesyrhaf a'r gymuned Gymraeg yma'n y dre oedd eu gweld yn gadael. Dymunwn yn dda iddynt yng Nghaerdydd ac yn arbennig yn eu cefnogaeth i chi ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

Cofion

Gareth Richards, Ysgrifennydd, Soar-Maesyrhaf *Gareth Morgan Jones, Gweinidog*"

Mae'r oedfa'n dal ar y we – dyma'r linc: https://youtu.be/z-ZnWf10yAQ

Cofiwch fod mwyafrif ein hoedfaon i'w cael ar wefan Bethlehem – sef www.bethlehem.cymru

Ar y tudalennau nesaf cewch gip ar rai o'r oedfaon sydd i'w cael ar YouTube – ynghyd a'r rhai iau fu'n cynorthwyo yn yr oedfaon hynny.

Y Parchedig Robin Wyn Samuel.
https://youtu.be/x49eyfthzg0

Y Parchedig Jeff Williams
https://youtu.be/57bSZ279CwE

Y Parchedig Denzil John
https://youtu.be/oCk2qG0Lb6M

Oedfa ein Huw Lloyd ni, o Radur
https://youtu.be/PbtCcMCadCg

Y Parchedig Lona Roberts
https://youtu.be/BnhVDodbgCk



Y Parchedig Aled Edwards (dim linc)

Sian Meinir
https://youtu.be/QhH9fe6k7Zc

Mae Rhodri'n anfon linc i bob oedfa atoch. Ychwanegwch bob un arall at yr uchod neu ewch ar y wefan. Mae popeth yno – www.bethlehem.cymru a diolch i Wyn a Heulwen am hynny a phob recordiad sydd ar Youtube.

Oedfa'r Cwrdd Merched

SUL Y BLODAU

Ebrill 13 2025

Diolch i Eirlys Davies, Radur am drefnu'r oedfa hon. Roedd y cyfan yn seiliedig ar ddeunydd wedi ei baratoi ar gyfer rhaglen Dydd Gweddi y Byd gan ferched o Ynysoedd Cook. Isod, ar y dde, fe welwch fod gan Eirlys "flwch cenhadol" y *London Missionary Society*, a'r mudiad hwnnw, drwy genhadwr o'r enw John Williams aeth â Christnogaeth i Ynysoedd Cook yn y lle cyntaf. Mae'r oedfa gyfan, diolch i Wyn a Heulwen, i'w gweld fan hyn:
https://youtu.be/EeGHTndoBB8

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Parhad - Oedfa'r Cwrdd Merched

SUL Y BLODAU

Ebrill 13 2025

Y rhai fu'n cynorthwyo Eirlys yn yr oedfa uchod

OEDFA BORE SUL Y PASG

Ebrill 20 2025

Delwyn a chyd-aelodau oedd yn arwain y defosiwn. Gallwch ail wylio'r oedfa'n llawn ar https://youtu.be/UbOdyClQLtM





Dim ond detholiad o'r misoedd diweddar sydd wedi eu cynnwys uchod. Mae ein diolchi Wyn a Heulwen am gofnodi oedfaon Bethlehem a'u rhoi ar wefan y Tŷ Cwrdd (sef www.bethlehem.cymru) – Dyma'r linc i'r casgliad llawn o oedfaon sydd ar gael: https://www.bethlehem.cymru/archif-2025.html. Mae yna sawl un ohonom yn ail-ymuno ag oedfa rydyn ni wedi ei cholli. Gwyddom hefyd am eglwysi eraill sydd yn brin o adnoddau ac wedi manteisio ar yr oedfaon hyn.

CYDYMDEIMLO

- Rydyn ni'n anfon ein cofion at Menna Jones a'r teulu, ar ôl iddi golli chwaer ei mam yn 98 mlwydd oed. Roedd wedi byw yn Nolgellau am flynyddoedd lawer, cyn symud i gartref gofal yn y dref, ac yn fwy diweddar i gartref nyrsio ym Mhorthmadog.
- Chwith oedd cofnodi colli Mrs Ann Williams, Yr Eglwys Newydd, yn ein rhifyn diwethaf – neu Annie Margaret Williams i roi ei henw llawn iddi. Fe'n gadawodd o fewn ychydig fisoedd i'w phen-blwydd yn 101. Aelodau'r teulu fu'n arwain y teyrngedau ym Methlehem ac yng nghapel Briwnant, Y Ddraenen Wen, ar Ebrill 17. Delwyn Sion oedd yn arwain y defosiwn, ynghyd â darlleniad gan Kathryn Llywelyn. Anfonwn ein cofion at ferch a mab Mrs Williams, sef Mair a Gareth, ynghyd â John a Kay, ei mab a merch yng nghyfraith, a'r wyrion i gyd.
- Ar yr un diwrnod, Ebrill 17, bu angladd preifat un o'n cyn-drysoryddion, Dr Meurig Hefin Davies, a fu farw ar Fawrth 20. Bu Meurig yn weithgar ym Methlehem tra'n gweithredu fel Ffisegydd yn Ysbyty Felindre. Rydyn ni'n cofio'n annwyl at ei briod, Mary, ynghyd â'r plant, sef Martin, Graham ac Anna a'u teuluoedd.
- Ar Fai 15, bu farw un arall o'n cyn-aelodau, Mrs Cathi (Catherine Ellen) Jones, gynt o Radur, gweddw Cyril Onllwyn Jones. Bu'n athrawes yng Nghaerdydd a symudodd yn ôl i ardal ei mebyd yn y gogledd ar ôl ymddeol. Bu'r angladd yn Amlosgfa Gwenfô ar Fehefin 17. Rydyn ni'n anfon ein cofion at ei theulu hithau.

Mawrth 23

Dryll colledig a phram gwag

Oedfa Gorllewin Caerdydd

Dyma'r cyfranwyr i'r oedfa fore Sul y 23ain o Fawrth a'r linc i chi gael ail-ymuno yn yr addoliad:
https://youtu.be/beoHIV4L27k
Dewisodd Marged Cartwright "Y Dryll Colledig" fel thema ei sylwadau hi ac fel y gwelwch isod, roedd Rhys Powys, wrth annerch y plant hefyd ar yr un trywydd ond fod e wedi anghofio rhywbeth llawer mwy gwerthfawr nag un darn o arian! Diolch i bawb gyfrannodd, gan gynnwys Deio fu'n darllen emyn y plant (a hynny ar flaenau ei draed yn ôl Marged!)



Ac, yn ebrwydd, wele Rhodri-Gwynn druan yn helpu Rhys Powys i gludo pram o'r festri yn ystod y sgwrs i'r plant!
Y pram, bellach, yw hoff ffurf cludiant Rhys (wedi iddo ffarwelio â'r beic modur). Yn wir, roedd ynddi bopeth angenrheidiol i warchodwyr - ond dim babi! A dyna'r adeg y daeth â Soffia Non i'n plith – y bedwaredd genhedlaeth o'r tylwyth i fynychu Bethlehem! Ond, nid sgwrs un tad-cu a babi yn unig oedd hon - roedd yna dîm o warchodwyr wedi bod tu ôl i'r llenni, sef Gwion, Anna a Sian, sef dad, mam a mam-gu. Diolch i bawb ohonoch chi.

Llanelli 2000

Chwarter Canrif yn ôl

Yn dilyn apêl daer y golygydd am ddeunydd, bu Rhian Huws yn ddigon caredig i anfon y llun isod aton ni. Dyma aelodau Bethlehem cyn cystadlu ym Mhrifwyl 2000 yn Llanelli dan arweiniad Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd. Ysgogodd y llun yr arweinyddes hefyd fyfyrio a chyfrannu ar eich cyfer yn ogystal â chwilota rhagor. Cewch ei hymateb hi a'i hatgofion ar ôl y llun isod.

(Awdur y geiriau nesaf sy'n sefyll yr ail o'r dde uchod – ac heb newid dim!)

"Pan ddes i gynta i Fethlehem Gwaelod-y-garth, trwy anogaeth Elin gwraig Rhys Tudur oedd hynny, gan i ni'n dwy gyfarfod ein gilydd ar gwrs Hyfforddi Athrawon yng Nghaerdydd - finne'n dipyn o *siti slicer* ers tair blynedd ac Elin yn *niwbi* o Fangor.

Roedd y croeso gan yr aelodau ym Methlehem mor gynnes ac agos atoch ac mi gês fy nghymell i aros ar gyfer Ysgol Gân y Gymanfa dan law yr annwyl John Charles, ond yn dilyn ei farwolaeth sydyn cefais fy hun ar rybudd byr iawn yn llanw'r bwlch fel arweinydd y Gymanfa Ganu, gyda'r Athro Tudur Jones yn llywyddu – mae'n syndod yr hyder sy' gan rywun yn nyddiau ei ieuenctid!

Yn sicr mae caniadaeth y cysegr wedi bod yn gwbwl ganolog ym Methlehem o Sul i Sul, gydag acwsteg yr adeilad a'r canu ardderchog bob amser yn cynhesu'r galon.

Felly, pan anfonwyd y ffoto yma ataf o'r criw ddaeth at ei gilydd i berfformio yn Eisteddfod Llanelli, mi es ati wedyn i dyrchu yn y papurach a'r copis sy' wedi crynhoi ar hyd y degawdau, i weld a allwn ddod o hyd i'r feirniadaeth a gawsom y diwrnod hwnnw. Doedd hi ddim yn feirniadaeth garedig.

Methais â rhoi fy llaw ar feirniadaeth Eisteddfod 2000. Ar y llaw arall, dyw hi ddim yn syndod imi lwyddo i ddod o hyd i dystysgrifau a gawsom am wobrau yn Eisteddfod Casnewydd yn 1988, a chopi hefyd yr wy'n ei drysori'n fawr o feirniadaeth ddigon clên gan Haf Morris, un o freninesau Cerdd Dant.

O edrych ar y llun o'r côr yn Llanelli, fe welwch fod oedran yr aelodau yn amrywio o ryw 11 i 70 oed a dwi'n synnu ein bod wedi bod mor fentrus â chystadlu o ystyried bod y darn prawf yn dod o Requiem Mozart, gyda dim ond pedwar o faswyr, ac un o'r rheiny ar fenthyg. Cofiwch, fodd bynnag, bod un tenor bach ifanc wedi

mynd ymlaen i gipio Tlws y Cerddor (Ieuan) a hogan fach arall bellach yn bianydd clasurol proffesiynol (Siwan Rhys).

Do, fe gawson ni lawer o hwyl yn paratoi ac mae'n rhoi cymaint o bleser i mi ein bod erbyn hyn mor ffodus o gael Eilir yn cymryd yr awenau a pharatoi achlysuron cerddorol mor gyffrous a chyfoes i ni yma ar aelwyd Bethlehem. Ond edrychwch ar y llun isod:

Efallai bydd rhai o aelodau'r parti merched (Gwenan, Luned, Lowri ac Esyllt) yng Nghasnewydd yn cofio'r garol Hosanna Mwy, a'r hen stejyrs yn cofio Tyrd Wanwyn Mwyn yng Nghasnewydd ac wedyn yr Hostias allan o'r Requiem yn Llanelli."

Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd

Odlau'r Garth

Diolch i Martin Huws am ei soned isod . Dichon ein bod wedi colli sawl cyfle i'w longyfarch am ei fynych lwyddiannau diweddar! Dyma soned ddaeth yn ail yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid eleni.

Arswyd
Tŵr Llundain, 2014

Dewch, ymunwch heddi heb ddifaru,
gorymdeithia'r band o nerth i nerth.
Prynwch boster dyn â'i fys yn bachu
porthiant gynnau. Milwyr plastig ar werth.

Braint i ni yn wir, taw pobol ddethol
sydd gyda ni ar rith o faes cyflafan.
Cofiwch, medd y dug, mai hwn yw'r symbol
sydd yn cario'r dydd, yn dweud y cyfan.

Ond rhywbeth bach ar goll yn sbloet ail-law
y ffos yn Llundain, y llanw coch seramig
sy'n lân, yn bur heb ffwdan llacs na baw
nac ategolion chwiban, chwys a phanig.

Dwi'n nabod un sy'n ffaelu cael eu gwared:
y llygaid gwag a dawns fyddarol pryfed.

Martin Huws

Y Cwrdd Diaconiaid

Crynodeb o'r trafodaethau

Mehefin 22, 2025

1.. Derbyniwyd **Cofnod y Cwrdd Eglwys** a gynhaliwyd ar Sul y 4ydd o Fai, 2025 (ethol Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

2. Materion yn codi o Gofnodion cyfarfod 16eg o Chwefror 2025:

Nodwyd y canlynol fel tasgau, un a'i mewn llaw, neu i'w trefnu a'u cwblhau:-

- Dodrefn hygyrch ar gyfer y Festri – cadarnhawyd fod Cyfundeb De-ddwyrain Cymru wedi cyfrannu swm o £5000 tuag at y gost o brynu cadeiriau a byrddau newydd ar gyfer y Festri, a bod y dodrefn bellach yn eu lle ac yn cael eu defnyddio gyson. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith Delwyn Sion a Peredur Evans yn sicrhau'r cais a'r pwrcasu.

  Nodwyd bod y cadeiriau blaenorol wedi eu trosglwyddo i Eglwys ym Mhontypridd.
- System oleuadau hwylus / camera sefydlog, ar gyfer y Capel – dan drafodaeth.
- Cyhoeddi hanes y Capel – dan drafodaeth
- Cwrdd a cefnogwyr "Plan International" – i'w gyflawni
- Canllaw o gyntedd y Capel i'r Galeri – opsiynau yn cael eu hystyried.
- Cwblhau'r canllaw yn y Galeri (gyferbyn a'r grisiau sy'n arwain at y seddau)
- Arolwg cyflawn o'r Capel a'r Festri yn unol a'r "Heulwen Dan Gwmwl" (Creu eglwys Dementia-gyfeillgar")
- Gwahodd yr aelodaeth i ystyried ychwanegu at rhengoedd y Diaconiaid.

3. Adroddiad yr Arweinydd:

Cydnabuwyd, gyda diolch, waith Delwyn Sion fel Arweinydd ym Methlehem.

Nododd Delwyn fel a ganlyn:-

- ei fwriad i gynnal oedfaon (hyd at 3 mewn blwyddyn) a fyddai'n cyd-ymffurfio a phatrwm oedfaon perthnasol i'r rhai sy'n byw gyda dementia a chyflwr tebyg.
  Awgrymwyd yn ogystal y gellid ystyried cynnal ambell oedfa yn y Festri, gyda lluniaeth yn rhan o'r arlwy.
- Mynegodd ei ddiolch am y gwaith tawel a diffwdan y mae Paul Garside yn ei wneud fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau.
- Derbyn aelodau newydd – nodwyd bod dau o fynychwyr rheolaidd i'w derbyn fel cyflawn aelodau ym mis Gorffennaf 2025.
- Silff Lyfrau yn y Festri –dylid atgoffa'r aelodaeth o'r ddarpariaeth o lyfrau a oedd ar gael yn y Festri i'w benthyg / darllen, gydag unrhyw gyfraniadau yn cael eu neilltuo i gronfa'r elusen leol.
- Mynegwyd boddhad o fod wedi cyflwyno Cantata Cerddorol, o waith Eilir Owen Griffiths, "Gorffennwyd", ar y 27ain o fis Ebrill, yng nghwmni Côr y Capel, a cherddorion a chantorion gwadd.

4. Cristnogaeth Ymarferol

- Dewis elusen ar gyfer 2025/27 – nodwyd y bydd cyfle ar Sul cyntaf mis Gorffennaf i ddewis elusen leol i'w chefnogi o fis Medi 2025 ymlaen. Cytunwyd, wedi trafodaeth, mai dwy elusen o'r pump a gyflwynwyd gan yr aelodau a fyddai ger bron ar y papur pleidleisio – sef Sightlife Wales (gynt Sefydliad y Deillion) ac OASIS Caerdydd (cymorth i ffoaduriaid).

- Nodwyd fod darpariaeth "Te yn y Tabernacl / Canolfan Glyd" yn parhau (diolch arbennig i Ian ac Ann Hughes am gyd-lynu ar ran Bethlehem). Byddai'n dro Bethlehem ar Sul y 6ed o Orffennaf, a nodwyd bod gwirfoddolwyr eisoes ar gael ar gyfer y dyddiad hwnnw.
- Nodwyd, gyda diolch, bod cyfraniadau i'r Banc Bwyd yn parhau ar Sul cyntaf y mis.
- Nodwyd bod y "Bore Coffi a Chlonc" yn y Festri, ar y trydydd bore Iau yn y mis, wedi bod yn llwyddiant. Cynhaliwyd cyfarfod olaf tymor yr haf ar y 19eg o Fehefin.
  Byddai Delwyn yn barod i dderbyn awgrymiadau o weithgarwch i gyd- fynd a'r sgwrsio o fis Medi ymlaen.

6. Cyswllt aelodau a chyhoeddi

a) "Gair bach Bethlehem":

Diolchwyd i Ifan Roberts am sicrhau cyhoeddi "Gair bach Bethlehem" (Rhifyn 51). Byddai'r rhifyn nesaf yn barod ddiwedd mis Mehefin 2025.

b) Gwefan y Capel:

- Mae Wyn Jones wedi llwyddo i gael cysylltiad gwe i'r capel wedi llawer o drafferthion gyda'r darparwyr. Mae hyn yn gweithio yn adeilad y capel, ac mae estyniad i gynnwys y Festri wedi ei gwblhau i bob pwrpas.
- Byddwn yn addasu'r ddau fwyler i fod o dan reolaeth meddalwedd y bydd modd ei addasu dros y we. Bydd hyn yn gwella'r hyblygrwydd pan fo angen gwneud newidiadau a dylai arwain at leihad yn nefnydd egni.
- 'Roedd ychwanegu at dudalennau "Archif" ar wefan y Capel (www. gwe-bethlehem.cymru) hefyd ar waith.

7. Adeiladau a Chyfarpar:

Nodwyd nad oedd yr adnodd ar gyfer torri'r lawnt bellach ar gael, ac y byddai rhaid ystyried cynllun amgen neu gymorth o gyfeiriad arall.

8. Adroddiad y Trysorydd:

- Mae paratoi'r daflen cydbwyso ar gyfer blwyddyn 2024-25 ar waith a bydd y cyfan yn barod yn fuan.
- Ymddengys y bydd y rhoddion a dderbyniwyd tuag at y weinidogaeth yn £ 24,233, sy'n gynnydd o 5.8% ar y swm cyfatebol am 2023-24.
- Mae'r cyfrif buddsoddi gyda MCA Funding for Churches bellach yn ei le wedi ei osod yn ei le ac 'rydym wedi trosglwyddo £10,000 cychwynnol iddo.
- Ymddengys y bydd £95,712 mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol [sylwer ein bod wedi derbyn £35.000 yn ystod y flwyddyn yn rhodd gan Sardis, Pontypridd.]

9. Iechyd a Diogelwch / Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus:

Byddid yn adolygu'r sefyllfa ynglyn a "Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus" yn ystod 2025, gan ymgynghori er goruchwylio'r broses gofrestru.

10. Ymddiriedolwyr:

Mae copi o'r ddogfen a baratowyd yn 1987 ar gael yn nodi'r sefyllfa gyfredol. Bryd hynny roedd 8 ymddiriedolwr yn eu swydd, ac ychwanegwyd 8 newydd atynt. Oherwydd colledion, marwolaeth ac encilio, dim ond 5 yn unig ohonynt sydd yn bellach yn mynychu'r capel.

Mae dau o'r pump mwyach wedi mynegi eu dyhead i gael eu rhyddhau o'r swyddogaeth Derbyniwyd y dylid prysuro i ethol nifer o ymddiriedolwyr newydd - dylem edrych i fod mewn sefyllfa lle mae o leiaf 10 o ymddiriedolwyr gennym.
Yn ogystal, cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod rhwng y Diaconiaid a'r Ymddiriedolwyr, gyda'r bwriad o adfer y rhaniadau cyfrifoldeb a oedd yn bodoli cyn y cyfnod clo yn 2020,

11. Cymundeb: Awgrymwyd y dylid adfer / adolygu y drefn o rannu'r elfennau yn ystod y Cymundeb, i gynnwys rhai o'r aelodau.

12. Undeb yr Annibynwyr: Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd at nifer o faterion a fyddai'n cael eu trafod yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Nant Gwrtheyrn ar y 25/27 o Fehefin:-

- Cydweithio gydag elusen amgylcheddol A Rocha (creu eco-eglwys – mae Bethlehem wedi derbyn cydnabyddiaeth Efydd ar hyn o bryd).
- Rhaglen genhadol plant, ieuenctid a'u teuluoedd – "lansio rhaglen fydd yn hyrwyddo a chefnogi blwyddyn o weithgaredd cenhadol yn ymwneud yn benodol a gwaith plant, ieuenctid a theuluoedd yn ein heglwysi a'u cymunedau."
- Nodi bod y Parchedig Jill -Hailey Harries wedi ei phenodi yn Swyddog Elusen ac Eiddo yr Undeb.
- Nodi mai ychydig o geisiadau a oedd wedi eu derbyn gan yr Undeb am gymorth grant Arloesi a Buddsoddi.
- Bwriada'r Undeb fynd i bartneriaeth gyda Cymorth Cristnogol (CC) ar gynllun Cymynroddion Ffydd (Faith Wills) – "sy'n golygu gadael rhodd i CC a'ch eglwys leol yn eich Ewyllys".
- Nodi mai'r Parchedig Robin Samuel fydd Dirprwy Lywydd yr Undeb o fis Gorffennaf ymlaen (a'r Parch Owain Llyr Evans yn Llywydd).
- Nodi mai Eleanor Wyn Reynolds fydd Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb yn dilyn ymddeoliad y Parchedig Dyfrig Rees.

Rhodri-Gwynn Jones,
Ysgrifennydd, Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Cofiwch am ein rhifyn nesaf o'r

Gair Bach

Mae'r haf o'n blaenau – cyfle i chi – ie, chi – i roi pin ar bapur neu deipio pwt o erthygl. Unrhyw bwnc yr hoffech chi ei rannu â'ch cyd-aelodau ym Methlehem – heb eich Gair Bach nid oes Gair Bach.

Beth am ddyddiad cau tua ***Medi 15, 2025?***
10 wythnos i ffwrdd – digon o amser i chi greu hyd hynny!

Ifan – tycnau@aol.com